Theatr Clwyd

# Chwarae eich rhan




# Nawdd Corfforaethol

Cefnogi theatr o safon byd yng nghalon eich cymuned

Registered with FUNDRAISING REGULATOR
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Cymru Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Theatr Clwyd

Chwarae eich rhan

**Mae Theatr Clwyd wedi bod yn creu theatr o safon byd ym mryniau Gogledd Cymru ers 1976.**

Rydyn ni'n cyrraedd mwy na 300,000 o bobl bob blwyddyn drwy rannu theatr, cerddoriaeth, ffilm, comedi a dawns eithriadol ac arobryn ar ein llwyfannau ni: gan ddefnyddio creadigrwydd i gefnogi lles cymunedol yn ein hadeilad a ledled y sir: meithrin y genhedlaeth nesaf o artistiaid o Gymru drwy fentrau fel ein cynllun technegwyr dan hyfforddiant: a gosod cyfrifoldeb amgylcheddol wrth galon popeth.

Mae ein gwaith ni gyda chymunedau wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft, pobl sydd â cholled cof neu bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

**Ein nod ni yw gwneud y byd yn lle hapusach, un eiliad ar y tro.**

## Cyrhaeddiad

**3,360,533**
wedi edrych ar ein tudalen

**90,000+**
o lyfrynnau tymor yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol

**21,000**
o ddilynwyr ar Facebook

**15,700**
o ddilynwyr ar X

**33,593**
yn tanysgrifio i'n e-bost

**80,000**
o lythyrau unigol wedi'u hanfon drwy'r post

**4,106,480**
Argraffiadau GoogleAd

**300,831**
o amser gwylio fideos YouTube

Theatr
Clwyd

Chwarae
eich
rhan

# Aelodaeth Gorfforaethol

Mae ein cynllun aelodaeth ni'n cynnig buddion anhygoel y gallwch chi eu defnyddio i ddiddanu cleientiaid, cwsmeriaid neu ddarpar gwsmeriaid, neu i wobrwyo ac ymgysylltu â chyflogeion.

Rydyn ni'n cynnig lletygarwch o ansawdd uchel i weddu i'ch anghenion chi, sy'n cael ei drefnu gan aelod ymroddedig o'r tîm.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'ch brand i'n cynulleidfaoedd ni drwy ein llyfrynnau, ein rhaglenni a'n gwefan.

Gyda 3 haen aelodaeth rydyn ni'n hyderus y bydd rhywbeth yma i chi.



*Mae hwn yn gyfnod grymus i Theatr Clwyd, wrth i ni gymryd cam hanfodol tuag at ddarparu cartref o'r radd flaenaf i aelodau ein cwmni a'n cymunedau, gan gynnig rheswm arall i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn falch ohono am genedlaethau i ddod. Rydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr busnesau lleol a chenedlaethol i sicrhau effaith sylweddol ar eu buddsoddiad fel rhan o'n taith."*

**Liam Evans-Ford | Cyfarwyddwr Gweithredol**



*"Rydyn ni mor falch o weld y diddordeb gan sefydliadau corfforaethol sydd eisiau cysylltu â Theatr Clwyd. Mae ein cynlluniau aelodaeth ni'n cynnig buddion anhygoel a fydd yn diddanu cleientiaid presennol, darpar gleientiaid a staff a hefyd yn cael effaith sylweddol ar eu buddsoddiad yn ein siwrnai ni. Rydw i'n mwynhau cyfarfod â'n holl aelodau corfforaethol ni, yn enwedig ar amser mor brysur i'r theatr wrth i'w dyfodol ddatblygu"*

**Siobhan Jones | Aelod o'r Bwrdd**

Theatr Clwyd

Chwarae eich rhan

# Aelodaeth Aur



Rent, Theatr Clwyd/Robert Mackintosh & Idili Theatricals/WMC

**£5,000** + TAW y flwyddyn

**Tocynnau a Digwyddiadau**

- 70 o docynnau pris uchel am ddim ar draws Cynyrchiadau Theatr Clwyd*
- Ymweliadau cast o'ch derbyniadau ar ôl sioe (uchafswm o 2 ddigwyddiad y flwyddyn)
- Derbyniad Prosecco ar gyfer hyd at 20 o westeion (yn seiliedig ar 2 wydr i bob gwestai cyn sioe)
- Man cadw yn ein bar ni ar gyfer eich digwyddiadau, gyda chyfle i ddod a'ch baneri a'ch deunyddiau hysbysebu
- Aelod penodol o staff i helpu i drefnu eich digwyddiadau gyda'n tîm blaen tŷ ac arlwyo. Codir tâl am ein holl fwyd a diod or sail ein cyfradd ar gyfer digwyddiadau

**Sylw i Frand**

- Cydnabyddiaeth logo yn un o raglenni ein cynyrchiadau yn Theatr Clwyd
- Cydnabod eich logo chi yn ein Prif Lyfryn ni (15k, hyd at 3 gwaith y flwyddyn)
- Hysbyseb ½ tudalen yn un o raglenni ein cynyrchiadau yn Theatr Clwyd

**Ar-lein**

- Cydnabyddiaeth gorfforaethol ar ein gwefan ni

**Gwahoddiadau i Noson Gwesteion**

- Gwahoddiadau i noson gwesteion Theatr Clwyd (x6 tocyn bob noson gwesteion)

*Cynyrchiadau sy'n ymweld, yn amodol ar y cytundebau sydd gan y cwmnïau sy'n ymweld.

Theatr Clwyd

Chwarae eich rhan

# Aelodaeth Arian


Home, I'm Darling, Theatr Clwyd/National Theatre

## **£2,000** + TAW y flwyddyn

**Tocynnau a Digwyddiadau**

- 40 o docynnau pris uchel am ddim ar draws Cynyrchiadau Theatr Clwyd*
- Man cadw yn ein bar ni ar gyfer eich digwyddiadau, gyda chyfle i ddod a'ch baneri a'ch deunyddiau hysbysebu
- Aelod penodol o staff i helpu i drefnu eich digwyddiadau gyda'n tîm blaen tŷ ac arlwyo. Codir tal am ein holl fwyd a diod ar sail ein cyfradd ar gyfer digwyddiadau

**Sylw i Frand**

- Cydnabyddiaeth logo yn un o raglenni ein cynyrchiadau yn Theatr Clwyd
- Cydnabod eich logo chi yn ein Prif Lyfryn ni (15k, hyd at 3 gwaith y flwyddyn)
- Hysbyseb ½ tudalen yn un o raglenni ein cynyrchiadau yn Theatr Clwyd

**Ar-lein**

- Cydnabyddiaeth gorfforaethol ar ein gwefan ni

**Gwahoddiadau i Noson Gwesteion**

- Gwahoddiadau i noson gwesteion Theatr Clwyd (x4 tocyn i bob noson gwesteion)

*Cynyrchiadau sy'n ymweld, yn amodol ar y cytundebau sydd gan y cwmnïau sy'n ymweld.

Theatr Clwyd

Chwarae eich rhan

# Aelodaeth Efydd



Junkyard, Theatr Clwyd, Bristol Old Vic/Headlong

**£500** + TAW y flwyddyn

**Tocynnau a Digwyddiadau**

- 10 o docynnau pris uchel am ddim ar draws Cynyrchiadau Theatr Clwyd*
- Man cadw yn ein bar ni ar gyfer eich digwyddiadau, gyda chyfle i ddod a'ch baneri a'ch deunyddiau hysbysebu
- Aelod penodol o staff i helpu i drefnu eich digwyddiadau gyda'n tîm blaen tŷ ac arlwyo. Codir tal am ein holl fwyd a diod ar sail ein cyfradd ar gyfer digwyddiadau

**Sylw i Frand**

- Cydnabyddiaeth logo yn un o raglenni ein cynyrchiadau yn Theatr Clwyd

**Ar-lein**

- Cydnabyddiaeth gorfforaethol ar ein gwefan ni

**Gwahoddiadau i Noson Gwesteion**

- Gwahoddiadau i noson gwesteion Theatr Clwyd (x2 tocyn i bob noson gwesteion)

*Cynyrchiadau sy'n ymweld, yn amodol ar y cytundebau sydd gan y cwmnïau sy'n ymweld.

# Ailddatblygiad gwerth miliynau o bunnoedd Theatr Clwyd

**I'w gwblhau erbyn canol 2025**

Gan weithio gyda'r penseiri clodwiw Haworth Tompkins, rydym yn gweithio ar ailddatblygiad trawsnewidiol a fydd yn darparu profiad llawer gwell i ymwelwyr a gwell cyfleusterau cynhyrchu incwm o fewn adeilad gwyrddach, mwy effeithlon a chroesawgar.

## Nodweddion allweddol ein prosiect cyfalaf mawr:



### Adeilad ar gyfer artistiaid gwych

Bydd ein hadeilad wedi'i ailddatblygu yn diogelu'r broses o greu theatr yng Nghymru. Bydd y cyfleusterau o safon byd ar gyfer creu gwisgoedd, setiau a phrops yn cydfynd â'r gwaith sy'n cael ei greu ar ein llwyfannau ni gan sicrhau dyfodol hir, cynaliadwy a llwyddiannus.



### Lle i ddysgu a chysylltu

Bydd ein hailddatblygiad yn gwneud ein hadeilad yn agored ac yn hygyrch. Bydd mannau addas i bwrpas yn ein galluogi i gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu, addysgu a newid cymdeithasol, tra bydd y potensial ar gyfer ennill mwy o incwm yn helpu i ddiogelu mentrau mynediad.



### Adeilad sy'n helpu ac yn gwella

Bydd cyfleusterau arbenigol newydd a gardd synhwyraidd yn darparu mannau addas i bwrpas ar gyfer iechyd a lles. Yn gysylltiedig â mannau gwyrdd allanol gydag ardaloedd ar gyfer chwarae, tyfu a seibiant, bydd y mannau hyn yn agored i bawb.



### Adeilad gwyrdd blaengar

Gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, nod yr ailddatblygiad yw bod yn brosiect arddangos proffil uchel ar gyfer creu theatr gynaliadwy, gan ysbrydoli addasu mewn lleoliadau eraill a thrawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, yn creu celf, ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.

## Cefnogwch eich theatr leol a'ch cymuned leol

**Rydyn ni wedi cynnwys rhai opsiynau nawdd a fydd o ddiddordeb i chi a'ch cwmni efallai. Rydyn ni'n croesawu trafodaeth!** Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau corfforaethol i sicrhau bod nawdd a chyfleoedd gwych yn dod yn fyw - mae croeso i chi gysylltu â ni i rannu eich syniadau neu feddyliau.

## Ein Heffaith

**700,000** o bobl wedi gweld ein sioeau ni yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf cyn Covid

**1500+** o ddigwyddiadau diwylliannol bob blwyddyn

Wedi cynhyrchu **67** drama newydd

**2,000+** o wersi cerddoriaeth wythnosol i bobl ifanc

**25** premiere byd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf

Cyrhaeddwyd **10,000+** o blant gan ein rhaglen Cyfiawnder

**£9.4m** o arian yn cael ei gynhyrchu yn flynyddol yn ein heconomi leol

***Gwobr UK Theatre a Gwobr Olivier***

***Gwobrau Theatr Cymru***

Cytundeb strategol gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Y sinema yn ailagor yn 2025 gyda **190+** o ffilmiau'n cael eu dangos bob blwyddyn

Cynnydd o **45%** yn y trosiant rhwng 2017 a 2020

*Sylwch, mae'r rhain yn ffigurau cyn y pandemig (ers 2016)*



**Zoe Crick-Tucker**
**Cyfarwyddwr yr Ymgyrch Gyfalaf**
zoe.crick-tucker@theatrclwyd.com
01352 609144



**Janine Dwan**
**Rheolwr Datblygu**
janine.dwan@theatrclwyd.com
01352 406916

Cefnogwyr Corfforaethol

**theatrclwyd.com/give/corporate-support**

Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd Cyf., rhif elusen gofrestredig 1189857